Helo a chroeso i rifyn mis Mawrth o Newyddion DBS, ein rhifyn cyntaf ers croesawu ein partner cyflenwi gwasanaeth newydd Tata Consultancy Services (TCS), a rhewi rhai o'n gwasanaethau dros dro er mwyn gwneud newidiadau i'n system TG.

Diolch am fod yn amyneddgar yn ystod y cyfnod hwn - gwnaethom ein gorau glas i amharu cyn lleied â phosibl.
Y newyddion da yw bod y gwaith hwn wedi'i orffen, a gobeithio eich bod yn cytuno bod y gwasanaeth nôl i'r arfer.

Er mwyn ein helpu i wella ein gwasanaeth arferol, mae angen eich help arnom. Yn y rhifyn hwn, rydym yn tynnu sylw at rai o'r meysydd sy'n derbyn cryn dipyn o ymholiadau. Darllenwch yr erthyglau pwysig hyn a rhannwch nhw o fewn eich sefydliad. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau nifer yr ymholiadau rydych yn eu hanfon atom.

**Sue Quigley**
**Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)**

---

## DBS yn datgelu twyll gwerth £61,000

Diolch i lygaid barcud ein staff, cafodd cwmni sy'n codi tâl ar eu cwsmeriaid am wirio cofnodion troseddol, ond a gynllwyniodd i osgoi talu ffioedd DBS, eu darganfod yn euog o wyth achos o dwyll.

Yn yr achos cyntaf o'i fath ar gyfer DBS, cafodd William Daniel Fradgley, perchennog JPW Recruitment, ei ddedfrydu i 12 mis yn y carchar, wedi'i ohirio am ddwy flynedd ar 24 Chwefror. Cafodd hefyd ei orchymyn i wneud 200 awr o Wasanaeth Cymunedol.

"Nid yw twyll yn dderbyniol. Mae hwn yn achos ynysig ac rydw i'n falch iawn bod yr achos wedi'i ddatrys a bod cyfiawnder wedi'i gyflawni. Rydw i'n gobeithio bod y ddedfryd hon yn tanlinellu y bydd y sawl sy'n camddefnyddio system gwirio cofnodion troseddol yn cael eu dedfrydu", meddai Adriènne Kelbie, Prif Weithredwr DBS.

Cyflwynodd Fradgley fwy na £61,000 o geisiadau gwirio cofnodion troseddol i DBS, gan honni trwy dwyll eu bod ar gyfer gwirfoddolwyr di-dâl, tra'n pocedi'r ffioedd a dalwyd gan gwsmeriaid.

Mae gennym nifer o wiriadau ar waith i sicrhau nad yw'n gwasanaethau'n cael eu camddefnyddio, a phan wnaeth ein staff craff nodi patrwn yn y ceisiadau a gyflwynwyd gan y cwmni, lansiwyd ymchwiliad a ddangosodd fod y cwmni'n cyflwyno ceisiadau ar gyfer gwirfoddolwyr trwy dwyll. Cafodd JPW Recruitment ei dynnu oddi ar y gofrestr, a thynnwyd sylw'r heddlu at y twyll.

---

## Ar y blaen

Yn rhifyn mis Ionawr, (*erthygl 'Mae angen eich manylion arnom'*) gwnaethom nodi y byddem yn cysylltu â Chydlofnodwyr i adnewyddu'r manylion cyswllt sydd gennym ar eich cyfer. Hyd yn hyn, rydym wedi cysylltu â mwy na 300 o Gydlofnodwyr, ac mae tua 800 wedi diweddaru eu manylion. Diolch i'r rhai ohonoch chi sydd wedi ymateb am ei fod wedi ein helpu i

chwynnu'r system.

Rydym wedi sylwi nad oes gan rhai ohonoch Cydlofnodwr, ac fel Corff Cofrestredig, mae'n ofynnol i chi gael un drwy'r amser.
Rhaid i chi ein hysbysu:

- Os yw eich Cydlofnodwr yn gadael (neu eisoes wedi gadael) a bod angen un newydd
- Os yw'r Cydlofnodwr yn newid ei enw, ei lofnod a/neu ei gyfeiriad

Os nad ydych yn cadw eich manylion cofrestru yn gyfredol, gall hyn greu oedi, am ei fod yn ei wneud yn anoddach i ni gysylltu â chi a'ch hysbysu am unrhyw wybodaeth berthnasol a phwysig.
Os oes angen i chi gofrestru Cydlofnodwr newydd, rhaid i chi ein hysbysu trwy lythyr ar bapur pennawd y cwmni gan gynnwys y manylion canlynol cyn gynted â phosibl:

- Enw a rhif y Corff Cofrestredig
- Rhif, enw a llofnod eich (Prif) Cydlofnodwr
- Manylion y newid e.e. enw a rhif y Cydlofnodwr sy'n gadael, enw a rhif y Cydlofnodwr newydd, dyddiad y newid ac ati.

Os nad yw'r Cydnofnodwr ar gael i gyflwyno'r manylion hyn, gallwn dderbyn llythyr wrth gyfarwyddwr neu debyg.
Anfonwch y manylion at:

**Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
**PO Box 110**
**Lerpwl**
**L69 3EF**

I gael mwy o wybodaeth, gweler yr adran 'newid eich manylion cofrestru' ar ein gwefan.

---

## Gwasanaeth Diweddaru: y canlyniadau

Gwnaeth rhai ohonoch gymryd rhan yn ein hymchwil ar y Gwasanaeth Diweddaru y llynedd - diolch am wneud hynny, mae eich barn yn bwysig i ni!

Roedd y canlyniadau yn galonogol ac yn llawn gwybodaeth; mae gennym awgrymiadau da i wneud gwelliannau, ac mae'n dda clywed bod ein gwasanaeth yn llwyddiannus i chi, a'ch ymgeiswyr yn benodol.

Ers rownd gyntaf yr ymchwil yn Ebrill 2013, mae lefelau ymwybyddiaeth wedi codi'n sylweddol. Mae'n amlwg bod nifer ohonoch yn uniaethu â'r buddion mae'r gwasanaeth yn eu cynnig a chlywodd 55% o danysgrifwyr am y gwasanaeth yn ystod y camau cynnar, gennych chi neu eu cyflogwr, sy'n golygu y bu'n bosibl iddyn nhw elwa hefyd. Roedd lefelau bodlonrwydd hefyd yn galonogol, roedd mwy na 60% o'r Cyrff Cofrestredig a 76% o'r ymgeiswyr yn fodlon. Mae hyn yn newyddion da, a byddwn yn gweithio'n ddiwyd i wella'r lefelau hyn yn y dyfodol.

Rydych wedi dweud wrthym fod y gwasanaeth yn effeithlon ac yn hawdd i'w defnyddio - mae 87% o danysgrifwyr yn bwriadu adnewyddu eu tanysgrifiad. Byddai tanysgrifwyr a'r sawl sy'n

bwriadu tanysgrifio yn annog eraill i ddefnyddio'r gwasanaeth, felly mae digon o botensial i ffynnu. Yn ddiddorol ddigon, mae mwy na 35% o'r Cyrff Cofrestredig yn bwriadu cynnwys Diweddaru'r Gwasanaeth yn eu contractau, a byddai 40% o'r sawl nad ydynt eto'n defnyddio'r gwasanaeth yn annog ymgeiswyr i'w ddefnyddio yn y dyfodol fel rhan o'u prosesau recriwtio.

Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i helpu i lywio a gwella ein marchnata, datblygu gwasanaethau, prisio a gweithgareddau cynllunio busnes yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r gwasanaeth i'r sectorau hynny lle y ceir diffyg ymwybyddiaeth a lle y gallai ymgeiswyr elwa ohono.

---

## Barn cwsmeriaid yn helpu i lywio'n dyfodol

Fis diwethaf, gwnaethom ddweud wrthych ein bod yn cynnal ymchwil ymhlith cwsmeriaid - ar wahân i'r ymchwil ar y Gwasanaeth Diweddaru - a gwnaethom eich annog i rannu eich barn. Dechreuodd y gwaith hwn ym mis Chwefror, ac mae'n mynd rhagddo'n dda. Yn debyg i'r Gwasanaeth Diweddaru, rydym yn cynnal arolwg ymhlith rhai o'r Cyrff Cofrestredig ac ymgeiswyr. Byddwn yn eich hysbysu o'n canfyddiadau cyn hir.

Rydym yn mentro i ddull modern o weithio ac rydym yn uchelgeisiol. Rydym am i chi ein helpu i lywio'n dyfodol.Bydd eich sylwadau yn cyfrannu at newidiadau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Diolch i'r rhai ohonoch sydd eisoes wedi cymryd rhan yn ein hymchwil. Efallai y byddwn yn cysylltu â rhai ohonoch dros y ffôn a byddem yn eich annog i gymryd rhan; mae yna bethau pwysig ar y gweill, a gallwch fod yn sicr y byddwch yn rhan ohonynt.

---

## Rhifau Tystysgrifau

Rydym wedi derbyn nifer cynyddol o ymholiadau wrth ymgeiswyr sydd am wybod eu rhif Tystysgrif DBS. Mae'r rhif hwn yn unigryw, mae ganddo 12 digid ac mae wedi'i nodi yng nghornel uchaf dde pob tystysgrif.

Yn ôl ymgeiswyr, mae cyflogwyr yn fodlon eu cyflogi, hyd yn oed os nad ydynt wedi gweld y dystysgrif, cyn belled â'u bod wedi rhoi rhif y Dystysgrif DBS iddynt. Ni fyddwn yn rhoi hwn i'r ymgeisydd oherwydd heb y dystysgrif, ni fydd yn rhoi unrhyw wybodaeth ddefnyddiol i ddarpar gyflogwyr a fydd yn eu helpu i asesu addasrwydd ymgeisydd ar gyfer swydd.

Os bydd ymgeisydd yn colli ei dystysgrif a bod angen i'r cyflogwr wirio cofnodion troseddol, bydd angen iddo wneud cais newydd. Fel arall, os bydd ymgeisydd am gael ei atgoffa o'r wybodaeth a oedd ar ei dystysgrif flaenorol, gall gyflwyno cais am fynediad at wybodaeth , sy'n costio £10 ac sy'n rhoi manylion am y wybodaeth sydd gennym amdano. Mae hyn yn cynnwys argraffiad o rif y dystysgrif a chynnwys y dystysgrif.

Mae'n bwysig nodi pan fyddwn yn prosesu cais, nid ydym yn ail-wirio gwybodaeth sydd ar dystysgrif a roddwyd yn flaenorol gydag unrhyw ffynonellau data, felly mae'n bosibl y bydd hen wybodaeth yn ymddangos ar ein hymateb. Gallai hyn gynnwys collfarnau a fyddai bellach yn cael eu hidlo (yn unol â'r canllawiau cyfredol), collfarnau a allai fod wedi cael eu

gwrthdroi ar apêl, neu hen rifau pasbort a statws priodasol.

Os yw ymgeisydd wedi colli tystysgrif sydd wedi'i hatodi i'w danysgrifiad i'r Gwasanaeth Diweddaru bydd angen iddo wneud cais am wiriad newydd o gofnodion troseddol, ac atodi'r dystysgrif newydd i'w danysgrifiad. Gwneir hyn fel y gall unrhyw gyflogwr newydd wirio statws yn gywir wrth ddarllen y dystysgrif, gan sicrhau ei fod ar gyfer y gweithlu cywir, a'r math a'r lefel gywir sydd eu hangen arnynt, a bod ganddynt hawl gyfreithiol ganddynt i'w dderbyn.

---

## Lleihau Anghydfod

Yn ystod y pedwar mis diwethaf, allan o 1,233,367 o geisiadau, gwnaethom dderbyn 3,657 achos o anghydfod.
Gallwch chi, ymgeiswyr neu drydydd parti nodi achos o anghydfod os credir bod camgymeriad naill ai:

- Yn y cofnodion a ddarparwyd, fel manylion collfarn anghywir
- Yn y wybodaeth bersonol, fel enw neu fanylion cyflogwr

Ar gyfartaledd, gallai 62% o'r achosion o anghydfod a dderbyniwyd a oedd yn ymwneud â gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr fod wedi cael eu hosgoi, oherwydd llaw ysgrifen annealladwy a chamgymeriadau teipio ar geisiadau a gyflwynwyd dros y we oedd sail nifer o'r achosion o anghydfod.

Mae'r camgymeriadau mwyaf cyffredin y gellid eu hosgoi i'w gweld yn y meysydd canlynol:

- Cyfeiriad yr ymgeisydd (23%)
- Enw cyntaf a chyfenw'r ymgeisydd (10%)
- Man geni (4%)

Gall anghydfod achosi oedi yn eich prosesau recriwtio felly cymerwch ofal wrth gwblhau a/neu wirio ceisiadau DBS.

**Beth yw'r broses?**
Rydym yn cymharu'r wybodaeth ar y ffurflen gais gyda'r hyn sydd ar y dystysgrif. Yna rydym yn penderfynu a oedd y camgymeriad yn ymwneud â'n dull prosesu ni neu'n ymwneud â'r ymgeisydd/Cydlofnodwr yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn.

Os oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd/Cydlofnodwr, ni allwn ddarparu tystysgrif newydd a bydd rhaid i chi gyflwyno cais newydd i dderbyn tystysgrif gywir. Os mai ni wnaeth y camgymeriad, byddwn yn rhoi tystysgrif newydd a chywir i'r ymgeisydd, am ddim.

Os yw ymgeisydd wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru a bod yr ymgeisydd/Cydlofnodwr ar fai am y gwall, efallai y byddwn yn dileu eu tystysgrif oherwydd gallai'r wybodaeth anghywir amharu ar gywirdeb ein proses wirio. Byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno cais newydd er mwyn cael copi cywir o Dystysgrif DBS.

Gweler ein gwefan am fwy o wybodaeth a chanllawiau ar sut i herio hyn.

## Sicrhau bod w59 yn gywir

Rydym yn dal i dderbyn nifer o geisiadau lle mae'r blwch '*na*' wedi'i groesi'n anghywir mewn ymateb i'r cwestiwn yn adran w59 sy'n nodi:

> *'Ydych chi'n ymwybodol o wir hunaniaeth yr ymgeisydd, drwy archwilio ystod o ddogfennau fel y nodwyd yng nghanllawiau DBS, ac wedi gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn adrannau a a b, drwy gwblhau'r blychau gwirio?'*

Gwnaeth oddeutu 27% gwblhau'r ffurflen gyda *'na'* drwy gamgymeriad, a gwnaeth y Cydlofnodwr gadarnhau'n ddiweddarach mai '*ie*' oedd yn gywir.
I gadarnhau hunaniaeth yr ymgeisydd, rhaid i Gydlofnodwyr neu'r gwirwyr tystiolaeth cymwys:

- Ddilyn y broses tri llinyn wrth wirio hunaniaeth gan ddefnyddio'r rhestr o ddogfennau Grŵp 1; 2a a 2b
- Gwirio a chadarnhau'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ar y ffurflen gais/daflen atodol
- Nodi hunaniaeth yr ymgeisydd drwy archwilio ystod o ddogfennau fel y nodwyd yn y canllawiau
- Sicrhau bod yr ymgeisydd yn darparu manylion eu holl enwau
- Sicrhau bod yr ymgeisydd yn darparu manylion yr holl gyfeiriadau maent wedi byw ynddynt yn ystod y pum mlynedd diwethaf
- Sicrhau bod y ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn ac yn gywir

Os na allwch gadarnhau hunaniaeth yr ymgeisydd drwy ddefnyddio dulliau un, dau neu dri, nodwch hynny ar y ffurflen gais ym mlwch w59 a'i dychwelyd atom ni. Yna bydd angen i'r ymgeisydd gael prawf olion bysedd, a allai oedi'r broses ymgeisio, a'ch prosesau recriwtio chi yn sgil hynny.

Ar gyfer ceisiadau cymwys lle mae Cydlofnodwr wedi gwneud ymholiadau addas gydag ymgeiswyr, rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'n proses er mwyn ei hwyluso i bawb:

- Ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd o **10 Mawrth 2014** ymlaen, bydd ymgeiswyr yn derbyn copi o ffurflen ganiatad olion bysedd ynghyd â'r llythyr atgoffa, am fod nifer o bobl yn dweud wrthym eu bod wedi colli'r ffurflen wreiddiol.
- Rydym wedi newid y llythyr rydym yn ei anfon i atgoffa'r ymgeisydd am bwysigrwydd dychwelyd y ffurflen ganiatad yn brydlon gan roi llai o amser (14 diwrnod yn hytrach na 21 diwrnod) sydd yn dal i fod yn amser rhesymol i ddychwelyd y ffurflen.

I osgoi oedi, cymerwch ofal arbennig wrth gwblhau rhan w59 o'r ffurflen a sicrhewch y bydd ymgeiswyr yn darparu'r holl ddogfennau adnabod gofynnol, cyn anfon y ffurflen gais.

---

## Gwasanaeth e-ganllaw

Hyd yn hyn, mae mwy na 20,000 ohonoch wedi ymweld â'r 'e-ganllaw: 'cwblhau ffurflen gais

DBS' ers iddo gael ei lansio ym mis Tachwedd y llynedd.

Wrth esbonio bob adran yn ei thro, mae'r canllaw yn nodi sut i gwblhau'r ffurflen gais yn gywir, er mwyn sicrhau na fydd ceisiadau'n cael eu gwrthod ac i osgoi unrhyw oedi diangen.

Gallwch ddarllen yr e-ganllaw yn Saesneg, yn Gymraeg neu fel fersiwn PDF.

---

## Gwiriwch eich sieciau

Ers Mawrth y 6ed, gallwn ond dderbyn sieciau sy'n daladwy i 'Disclosure and Barring Service' neu 'DBS'. Os ydynt yn daladwy i unrhyw un arall, bydd rhaid i ni eu gwrthod a'u dychwelyd atoch chi.

---

## Manylion cyswllt

**Cyfeiriad:**
PO Box 110
Lerpwl L69 3EF

**Am faterion a gwybodaeth Datgelu, ffoniwch:**
Gwasanaethau Cwsmeriaid 0870 90 90 811
Llinell Minicom 0870 90 90 344
Llinell Gymraeg 0870 90 90 223

**Am faterion a gwybodaeth sy'n ymwneud â Gwahardd, ffoniwch:**
01325 953 795.

Mae gennym ddwy system ffôn gwahanol felly rydym yn ymddiheuro na allwn drosglwyddo eich galwad rhwng ein swyddfeydd.

**E-bost:**
customerservices@dbs.gsi.gov.uk

**Gwefannau:**
www.gov.uk/dbs

Defnyddiwch ein system olrhain ar-lein i wirio cynnydd ceisiadau DBS yn:https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/tracking-application-getting-certificate